## Roedd yn ymladd am ei wynt – Mair Magdalen

**Darllen Marc 15:33–36, 40–41**

Roedd yn ymladd am ei wynt,
ei gorff wedi ei anharddu gan y boen;
o'r braidd y gallwn ei wylio.
Hen fusnes ofnadwy yw'r busnes croeshoelio yma ar y gorau,
hyd yn oed pan fo'r troseddwr yn haeddu marw,
ond pan mae cyfaill yn hongian yno,
rhywun yr ydych yn ei garu,
y mae'r profiad yn annisgrifiadwy.
Y mae'n amhosibl i chi ddychmygu
beth yw sefyll yno'n ddiymadferth,
yn gwylio'r bywyd yn diflannu o'r corff,
gweld y trueni,
y boen,
yr anobaith,
a gwybod bod yn rhaid i'r boen ddwysáu,
cyn yr anadl olaf.

Os na fuoch mewn sefyllfa gyffelyb
ni ddowch fyth i wybod maint yr ing.
Dioddefodd pob un ohonom fu'n dystion
i'r olygfa erchyll
ei uffern bersonol ei hun.
Duw a ŵyr, ein dymuniad oedd rhedeg –
cau ein llygaid a chymryd arnom
nad oedd yr anfadwaith yn digwydd.

Ond nid oedd hynny'n bosibl.
Yr oedd ein hangen ni yno yn fwy nag erioed,
gwybod ein bod ni yno,
gwybod ein bod yn poeni,
gwybod nad oedd yn unig.

Nid oedd yn llawer, rwy'n cyfaddef,
y criw bychan ohonom,
yn gwylio'n betrus yn y cysgodion,
yn ofni cael ein hadnabod,
ond yr oedd yn ddigon,
un llygedyn o oleuni mewn anialwch tywyll;
oherwydd gwyddai, er gwaethaf ein ffaeleddau,
ein bod yn mentro ein bywydau
oherwydd ein cariad tuag ato.
Yr oedd yn ymladd am ei wynt,

ac yr oeddem yn gweddïo
ar iddo gael ei ryddhau o'i boenau yn sydyn.
Ond yn sydyn ai peidio,
beth bynnag fyddai'r gost,
yr oeddem yn benderfynol o aros hyd y diwedd –
dyna'r peth lleiaf y gallem ei wneud.

**Gweddi:**
Arglwydd Iesu Grist,
gwyddom na allwn ad-dalu ein dyled i ti,
ond fe allwn ddangos faint y mae dy gariad yn ei olygu i ni.
Gallwn geisio dy ewyllys a gwrando'n gyson ar dy lais.
Dyma fydd yn anadlu bywyd i'n ffydd a'n haddoliad;
dyma fydd yn gwireddu ein geiriau.
Helpa ni i gadw'n ffyddlon,
fel y buost ti yn ffyddlon i ni,
beth bynnag fo'r gost.

***Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies***